OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2006 Rhif 1707 (Cy.169)

TAI, CYMRU

Rheoliadau Tai Amlfeddiannaeth (Sefydliadau Addysgol Penodedig) (Cymru) 2006

Wedi'u gwneud - -	*27 Mehefin 2006*
Yn dod i rym - -	*7 Gorffennaf 2006*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan baragraff 4(2) o Atodlen 14 o Ddeddf Tai 2004(**1**), drwy hyn yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn:

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Tai Amlfeddiannaeth (Sefydliadau Addysgol Penodedig) (Cymru) 2006 a deuant i rym ar 7 Gorffennaf 2006.

(1) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

Sefydliadau addysgol penodedig at ddibenion penodol o fewn Deddf Tai 2004

2. Mae sefydliad addysgol yn un penodedig at ddibenion paragraff 4 o Atodlen 14 i Ddeddf Tai 2004 os yw—

(a) wedi ei restru yn yr Atodlen i'r Rheoliadau hyn; a

(b) wedi ei restru fel y sefydliad addysgol perthnasol o ran adeilad—

(i) sydd wedi ei restru yn yr Atodlen i God Ymarfer Prifysgolion y DU/Cynhadledd Sefydlog Prifathrawon y Prifysgolion ar gyfer Rheoli Cartrefi Myfyrwyr (Cymru) dyddiedig 16 Mai 2006(**2**); neu

(ii) wedi ei restru yn ail golofn Atodlen 1 i God Rhwydwaith Achrediad y DU/Cod Safonau Unipol ar gyfer Datblygiadau Mwy ar gyfer Llety i Fyfyrwyr a Reolir ac sydd dan Reolaeth Sefydliadau Addysgol (Cynru) dyddiedig 16 Mai 2006(**3**).

(**1**) 2004 p. 34. Mae'r pwerau a roddwyd gan baragraff 4(2) o Atodlen 14 o Ddeddf Tai 2004 ("y Ddeddf") yn arferadwy, o ran Cymru, gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru, ac o ran Lloegr, gan yr Ysgrifennydd Gwladol. *Gweler* y diffiniad o "appropriate national authority" ("*awdurdod cenedlaethol priodol*") yn adran 261 (1) o'r Ddeddf.

(**2**) Mae'r Cod Ymarfer hwn wedi cael ei gymeradwyo gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 233 o'r Ddeddf. *Gweler* Gorchymyn Tai (Cymeradwyo Codau Ymarfer Rheoli) (Llety Myfyrwyr) (Cymru) 2006 (O.S. 2006/1709 (W.171)).

(**3**) Mae'r Cod Ymarfer hwn wedi cael ei gymeradwyo gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 233 o'r Ddeddf. *Gweler* Gorchymyn Tai (Cymeradwyo Codau Ymarfer Rheoli) (Llety Myfyrwyr) (Cymru) Gorchymyn 2006 (O.S. 2006/1709 (Cy.171)).

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn unol ag adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**4**).

D. Elis-Thomas
27 Mehefin 2006 Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

(**4**) 1998 p.38.